




"Mae wedi bod yn fisoedd prysur ar ein swyddogion technegol yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar. Maen nhw wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n safleoedd arddangos newydd i gynllunio prosiectau newydd cyffrous i'ch ysbrydoli. Cadwch lygad am y newyddion diweddaraf am brosiectau ar ein gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol".

- Dewi Hughes, Rheolwr Technegol



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

CYNYDDU'R DEFNYDD O LASWELLT

- pwyslais allweddol yn Erw Fawr

Er y gall Erw Fawr yng Nghaergybi, Ynys Môn, dyfu cyfanswm trawiadol o laswellt yn barod, mae'r ffermwyr arddangos newydd Ceredig a Sara Evans yn bwriadu gwella'r defnydd ohono. Trwy fapio seilwaith y fferm a rhoi'r llwyfan pori ar feddalwedd rheoli glaswellt, AgriNet, maent yn anelu at gynyddu eu dealltwriaeth o dueddiadau tyfiant glaswellt yn Erw Fawr a sut i reoli'r cynnyrch glaswellt yn effeithlon i gael y cynhyrchiant mwyaf o'r glaswellt.

MAGU HEFFROD LLAETH AR FFERM DDEFAID UCHELDIR – DEWIS POSIBL I CHI?

Mae Llys Dinmael Isaf, Corwen yn enghraifft berffaith o fferm ddefaid ucheldir, ond, bydd y prosiect hwn yn dynodi elfennau economaidd ac ymarferol magu heffrod llaeth ar safle ffocws Cyswllt Ffermio.

Bydd tri dangosydd perfformiad allweddol yn cael eu mesur yn ystod y prosiect i bennu effeithlonrwydd y fenter:

1. Y cynnydd pwysau byw targed (kg LWG)
2. Y cynnydd pwysau byw dyddiol (kg DLWG)
3. Cost magu'r heffrod (£)



Lleihau arferion drwg ar safle ffocws moch Cyswllt Ffermio

Mae brathu a chnoi cynffonau, clustiau ac ochrau yn broblemau cyffredin mewn systemau magu moch dwys. Ar hyn o bryd mae safle ffocws Llwyn yr Arth, ar Ynys Môn, yn treialu dulliau o leihau'r problemau yma yn eu cefnfa o foch masnachol. Trwy weithio'n agos gyda'r milfeddyg Eddie Devlin, Milfeddygon Bodrwnsiwn, mae protocolau iechyd a rheoli yn cael eu datblygu i leihau'r problemau, sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd, lles a phroffidioldeb y busnes.

Canlyniadau sganio wedi cyrraedd yn Halghton Hall

Yn ddiweddar cychwynnodd prosiect newydd sbon yn canolbwyntio ar gyfraddau cyfebu a chanran fagu mewn ŵyn benyw yn Halghton Hall, Bangor Iscoed, Wrecsam.

Pwyswyd yr ŵyn benyw ar 26 Medi a'u rhannu yn dri grŵp yn ôl pwysau, dan 41kg, 41 – 45kg a dros 45kg. Wrth sganio, pwyswyd canran o anifeiliaid o bob grŵp eto i ddod o hyd i unrhyw newidiadau. Cyfartaledd pob grŵp wrth eu sganio oedd 40.8kg, 44.4kg, a 47.8kg yn eu tro.

Awgryma'r canlyniadau sganio bod yr ŵyn benyw trymach wedi sganio'n well na ŵyn benyw ysgafnach.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

Cynyddu cyfraddau cyfebu o 60% i >75%.



RHEOLI GWRYCHOEDD - cynnal bioamrywiaeth ar fferm fynydd

Mae prosiect yn canolbwyntio ar reoli gwrychoedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Fedw Arian Uchaf, Y Bala. Nod y prosiect yw dynodi'r rhywogaethau, amcanion a phresgripsiynau i gyflawni cysgod, lleihau llif dros y tir ac i ymdopi â phroblemau llygredd tryledol. Mae cynllun rheoli gwrychoedd yn cael ei weithredu ar y safle ffocws ar hyn o bryd i hyrwyddo bioamrywiaeth yn ogystal â chynig cysgod i anifeiliaid.

Llun: Heffrod llaeth yn Llys Dinmael Isaf

Cyswllt Ffermio - Diweddariad

Yn dilyn y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â Coronavirus, mae pob digwyddiad agored a digwyddiadau gyda nifer o fynychwyr Cyswllt Ffermio wedi eu gohirio hyd ddiwedd mis Mai o leiaf. Gweler ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.



Cadwch lygad ar y datblygiadau a'r canlyniadau diweddaraf am y prosiectau trwy fynd i'n gwefan a'n dilyn ar gyfryngau cymdeithasol.

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

